Adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod 28 Ebrill 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Awdur yr Adroddiad: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Teitl Archwiliad Mewnol o Gyllidebau Cefnogi a Thaliadau Uniongyrchol - adroddiad dilynol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyllidebau Cefnogi a Thaliadau Uniongyrchol dyddiedig Awst 2019 a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ym Medi 2019.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau o ran 'Cyllidebau Cefnogi a Thaliadau Uniongyrchol' ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd isel, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu yr archwiliad a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd y cynllun gweithredu gwella.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Cwblhawyd ein hadolygiad gwreiddiol o Gyllidebau Cefnogi a Thaliadau Uniongyrchol yn Awst 2019 gan roi sicrwydd isel oherwydd y risgiau mawr a godwyd e.e. cadernid y prosesau monitro, a hygyrchedd a chysondeb

gwybodaeth allweddol. Ar adeg ein hadolygiad gwreiddiol, roedd darpariaethau cyllidebau cefnogi a thaliadau uniongyrchol yn mynd trwy gyfnod pontio ac roedd dogfennau, prosesau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu.

4.2. Yn wreiddiol trefnwyd i'n hadolygiad dilynol fynd i'r pwyllgor ym Mawrth 2020, fodd bynnag, cafodd ei oedi oherwydd pandemig Covid-19.

4.3. Mae'r adroddiad dilynol Archwilio Mewnol (Atodiad 1) yn dangos fod 22 o gamau gweithredu wedi eu cwblhau a'r chwe cham sy'n weddill yn y broses o gael eu trin.

4.4. Tra bod y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi cael blaenoriaethau eraill, yn arbennig o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r camau gweithredu a godwyd. Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hadolygiad dilynol, darparwn gyfradd sicrwydd canolig.

4.5. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro'r camau gweithredu sydd ar ôl i'w cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau gydag ail adroddiad dilynol wedi ei drefnu ar gyfer Gorffennaf 2021.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.